**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**22 MAI 2024**
**RHIF YR EITEM**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD**

# Cais am gyfraniad Aelod mewn Apêl Cynllunio 01/2022/0523/MA - Chwarel Graig Ffordd y Graig Dinbych

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

I geisio cefnogaeth a chyfraniad Aelod(au) i amddiffyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer:

"Cais cydgrynhoi i ymestyn cloddio a gweithio gyda chalchfaen, mewnforio deunydd gwastraff anadweithiol ac adfer tir amwynder"

Mae proses a dyddiad yr apêl yn dal yn anhysbys, ond mae'n debygol y'i cynhelir fel Ymchwiliad Cyhoeddus. Bydd y Swyddogion yn rhoi gwybod i'r aelodau perthnasol pan fydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru wedi rhoi gwybod i ni. Fodd bynnag, nid oes angen y wybodaeth hon er mwyn enwebu Aelod(au) i helpu i amddiffyn penderfyniad y Cyngor.

## 2. CEFNDIR

Gofynnwyd am ganiatâd cynllunio yn 2022 ar gyfer:

"Cais cydgrynhoi i ymestyn cloddio a gweithio gyda chalchfaen, mewnforio deunydd gwastraff anadweithiol ac adfer tir amwynder"

Argymhellodd y Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr 2023 y dylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y cais cynllunio uchod. Yn dilyn trafodaeth faith a llawn, penderfynodd yr Aelodau wrthod caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad y Swyddogion. Cafodd y penderfyniad i wrthod ei gynnig gan y Cynghorydd Ian Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Y rhesymau dros wrthod oedd:

1. *Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai'r estyniad ochrol arfaethedig i Chwarel Graig yn cael effaith negyddol annerbyniol ar rywogaethau a warchodir a nodweddion arbennig Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol*

*Arbennig Crest Mawr a Chwarel Graig. Ystyrir felly bod y cais yn groes i Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, Polisi Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd (GEH) 1 'Meysydd Allweddol Pwysig', GEH 5 'Gwarchod Adnoddau Naturiol', HEG 16 'Parthau Clustogi Mwynau', HEG 17 'Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol' a'r canllawiau yn y Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd, 'Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth', Polisi Cynllunio Cymru 11 (yn cynnwys Pennod 6 a ddiweddarwyd) a Nodyn Cyngor Technegol 5, Cadwraeth Natur a Chynllunio.*

2. *Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn nad yw'r cais yn cynnwys digon o gyfiawnhad dros ddatblygu estyniad i'r chwarel a mewnforio deunydd gwastraff anadweithiol ar safle heb ei glustnodi mewn cefn gwlad agored. Ystyrir felly bod y cais yn groes i Bolisi HEG 17 y Cynllun Datblygu Lleol 'Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol' a'r cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 'Agregau', a Pholisi Cynllunio Cymru 11 (yn cynnwys Pennod 6 a ddiweddarwyd).*

3. *Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai'r estyniad ochrol arfaethedig i'r chwarel yn cael effaith negyddol ar amwynder a lles preswylwyr lleol. Ystyrir felly bod y cais yn groes i Bolisïau HEG 16 y Cynllun Datblygu Lleol 'Parthau Clustogi Mwynau', HEG 17 'Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol' a'r cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1, y Llawlyfr Rheoli Datblygiadau a Pholisi Cynllunio Cymru 11 (yn cynnwys Pennod 6 a ddiweddarwyd).*

Roedd y bleidlais yn cynnwys 16 i wrthod caniatâd cynllunio, 0 i roi caniatâd cynllunio a 1 yn ymatal.

Wrth baratoi ar gyfer yr apêl, mae'r Swyddogion wedi sicrhau gwasanaethau Swyddog Cynllunio o wasanaeth Gwastraff a Mwynau Sir y Fflint i arwain achos y Cyngor. Rydym hefyd yn gofyn am wasanaethau bargyfreithiwr os cynhelir yr apêl fel Ymchwiliad Cyhoeddus.

Mae Swyddogion rŵan yn gofyn i Aelodau enwebu aelod (neu aelodau) o'r pwyllgor cynllunio i gynrychioli'r Cyngor yn yr apêl cynllunio gyda'r Swyddog Cynllunio o Sir y Fflint.

Mae copi o adroddiad gwreiddiol y Swyddogion ynghlwm fel Atodiad A, copi o gofnodion y cyfarfod fel Atodiad B a chopi o'r penderfyniad i wrthod ynghlwm fel Atodiad C.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor Cynllunio yn enwebu hyd at 2 Aelod i gynrychioli'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gyda chefnogaeth Swyddog perthnasol yn yr Apêl Cynllunio a gynhelir. Bod yr Aelodau hynny yn mynychu gwrandawiad yr apêl ac yn rhoi mewnbwn perthnasol i amddiffyn penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio.